

Dull PESS o Addysgu Dawns - Cyfnod Allweddol 2

Gwers 3

Canlyniadau Gwers 3

- Cynnig eu syniadau eu hunain ynghylch y gweithrediadau y dylid eu cynnwys mewn cyfres hwy o weithrediadau cysylltiedig trwy ymateb yn ddychmygus i symbyliadau
- Creu a pherfformio dawns mewn parau sy’n arddangos unffurfiaeth ac amrywiaeth o weithrediadau dawns
- Disgrifio’r hyn y maent wedi’i gynnwys yn eu dawns gan ddefnyddio geiriau allweddol

Adolygu

Gwnewch yn siwr bod y plant yn cynhesu trwy adolygu’r cymal dawns ar y pwnc ‘Mynd i’r parti’ a luniwyd yn ystod y wers ddiwethaf ac sy’n galw ar y plant i symud ag unffurfiaeth. Mae’r disgyblion yn ceisio cynnwys y gwelliannau a nodwyd y tro diwethaf.

Trac 3 ar CD sain Dull AGChY o Addysgu Dawns CA2.

Archwilio

Eglurwch y byddwn yn edrych ar y g♦mau a’r gweithgareddau a gaiff eu cynnal mewn part♦on yn ystod y tair gwers nesaf. Bydd cynlluniau gwersi yn ystyried y gweithgareddau canlynol: pasio’r parsel, cerfluniau cerddorol a’r hoci-coci. Gallai’r athro ddewis gweithgareddau gwahanol os yw’n dymuno gwneud hynny trwy gynnwys ei weithgareddau ei hun yn y cynllun gwersi yn lle’r rhai a nodir. Trafodwch sut yr ydych yn chwarae’r g♦m pasio’r parsel a rhai o’r tactegau a ddefnyddir yn ystod y g♦m ♦ oedi am gymaint o amser ag sy’n bosibl cyn trosglwyddo’r parsel, pasio’r parsel mor gyflym ag sy’n bosibl, gwasgu’r parsel, procio’r parsel, tynnu’r papur, dod o hyd i anrheg ac ati. Gofynnwch i’r disgyblion archwilio’r gweithrediadau sy’n gysylltiedig ♦ phasio’r parsel ar eu pen eu hunain. Atgoffwch y disgyblion i ddefnyddio’r holl weithrediadau dawns sylfaenol, gornwneud y gweithrediadau sy’n gysylltiedig ♦’r g♦m ac ystyried gwahanol lefelau a defnyddio gwahanol rannau o’r corff. Archwiliwch y gwahanol lwybrau y gallai’r parsel eu dilyn yn yr awyr wrth i chi ei symud o un lle i’r llall. Lle bo hynny’n briodol, gallai’r disgyblion ddawnsio gyda pharsel go iawn. Gofynnwch i’r disgyblion gynnig rhai syniadau ynghylch yr hyn y gallent ei gynnwys mewn cymal dawns ar y pwnc ‘Pasio’r parsel’. Ymunwch ♦ phartner, a rhannwch eich syniadau. Trafodwch y syniadau yr ydych yn eu hoffi orau. Ewch ati i ymarfer perfformio rhai o’r syniadau hyn gan symud ag unffurfiaeth, ac archwiliwch wahanol drefniannau gofodol.

Creu

Gweithiwch mewn parau i lunio cymal dawns ar y pwnc ‘Pasio’r parsel’. Dylai’r ddawns gynnwys ystod o wahanol weithrediadau dawns, newidiadau mewn lefelau, cyfeiriadau a llwybrau. Dylid perfformio’r ddawns gan symud ag unffurfiaeth.

Ymyrryd

Tynnwch sylw at barau sy’n cyfleu’r g♦m ‘Pasio’r parsel’ yn effeithiol trwy gyfrwng eu gweithrediadau dawns. Tynnwch sylw at ddisgyblion sy’n gwneud defnydd da o lefelau, gweithrediadau, llwybrau, mynegiant yr wyneb ac ati. Gofynnwch i’r disgyblion ddefnyddio geiriau allweddol i ddisgrifio’r hyn y maent yn ei weld, yr hyn y maent wedi’i gynnwys yn eu dawns ac ati.

Perfformio

Perfformiwch eich dawns o flaen pŵr arall. Mae'r pŵr sy'n gwylio yn cyfeirio at daflen o eiriau allweddol.

Gwerthuso

Mae'r disgyblion yn rhoi adborth i'w gilydd ynghylch yr hyn yr oeddent yn ei hoffi a'r hyn nad oeddent yn ei hoffi am y cymal dawns. Nodwch un peth y gallai'r pŵr arall weithio arno i wneud eu dawns hyd yn oed yn well. Ar 1 i'r disgyblion berfformio eu cymal dawns ar y pwnc 'Pasio'r parcel' o flaen pŵr arall a chael adborth, mae pob pŵr yn ychwanegu ei gymal dawns ar y pwnc 'Pasio'r parcel' at ei gymal dawns ar y pwnc 'Mynd i'r parti'. Yna, mae'r disgyblion yn hunanwerthuso eu perfformiad gyda chymorth cwestiynau a gaiff eu harwain gan yr athro. Mae'r disgyblion yn cael eu gwobrwyo/cannmol am ddefnyddio geiriau allweddol. Beth yr ydych chi'n ei hoffi fwyaf am eich dawns hyd yn hyn a pham yr ydych chi'n hoffi'r agwedd honno? Disgrifiwch sut y gwnaethoch symud ag unffurfiaeth. Pa weithrediadau dawns y gwnaethoch eu cynnwys? A ydych yn credu y byddai rhywun sy'n gwylio eich dawns yn gallu disgrifio naws eich dawns? Sut y gallech gyfleu'r naws yn fwy effeithiol? Beth yr ydych chi'n mynd i wneud y tro nesaf er mwyn gwella eich dawns?

